OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 437 (Cy.53)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o reoliadau o ganlyniad i'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("y Gorchymyn Asesu"). Mae'r Gorchymyn Asesu yn pennu'r trefniadau asesu ar gyfer profi llythrennedd a rhifedd yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru ("y profion llythrennedd a rhifedd"). Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Mai 2013 ac eithrio rheoliad 3(5) a ddaw i rym ar 1 Medi 2013.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ychwanegu at gwricwlwm cenedlaethol Cymru drwy bennu rhaglenni addysgol ychwanegol ("y rhaglenni addysgol ychwanegol") ar gyfer maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a maes dysgu datblygiad mathemategol yn y cyfnod sylfaen, a hefyd wedi pennu rhaglenni astudio ychwanegol ("y rhaglenni astudio ychwanegol") ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg mewn cysylltiad â'r ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol.

Rhoddwyd effaith gyfreithiol i'r rhaglenni addysgol ychwanegol a'r rhaglenni astudio ychwanegol gan Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 437 (W.53)

# EDUCATION, WALES

## The National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Regulations 2013

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend a number of regulations as a consequence of the assessment arrangements specified by the Welsh Ministers in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013 ("the Assessment Order"). The Assessment Order specifies the assessment arrangements for testing literacy and numeracy in the national curriculum for Wales ("the literacy and numeracy tests"). The Regulations come into force on 1 May 2013 except for regulation 3(5) which comes into force on 1 September 2013.

The Welsh Ministers have added to the national curriculum for Wales by specifying additional educational programmes ("the additional educational programmes") for the language, literacy and communication skills area of learning and the mathematical development area of learning in the foundation phase, and have also specified additional programmes of study ("the additional programmes of study") for English, Welsh and mathematics in respect of the second and third key stages.

The additional educational programmes and additional programmes of study were given legal effect by the National Curriculum (Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2013.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol yr wybodaeth gymharol ddiweddaraf am lythrennedd a rhifedd mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol yn y profion llythrennedd a rhifedd.

Mae rheoliad 3(2) a (3) yn diwygio Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau Adroddiad Pennaeth") er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir roi adroddiad i rieni ar ganlyniadau'r profion diwedd cyfnod yn y cyfnod sylfaen ym mlwyddyn olaf y plentyn yn y cyfnod sylfaen. Mae rheoliad 3(4) hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Adroddiad Pennaeth er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir roi adroddiad i rieni ar ganlyniadau'r profion llythrennedd a rhifedd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol yr wybodaeth gymharol ddiweddaraf am lythrennedd a rhifedd mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol yn y profion llythrennedd a rhifedd.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnwys yn yr wybodaeth a ddarperir i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ganlyniadau'r profion llythrennedd a rhifedd.

Regulation 2 amends the School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011 so as to require the governing body of a maintained school to publish in its annual report, the most recent literacy and numeracy comparative information in relation to the school's performance in the literacy and numeracy tests.

Regulation 3(2) and (3) amends the Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011 ("the Head Teacher's Report Regulations") so as to require head teacher of a maintained school to report to parents on the results of the end of phase tests in the foundation phase in the final year the child is in the foundation phase. Regulation 3(4) also amends the Head Teacher's Report Regulations so as to require the head teacher of a maintained school to report to parents on the results of the literacy and numeracy tests.

Regulation 4 amends the School Information (Wales) Regulations 2011 so as to require governing bodies of maintained schools to publish in the school prospectus the most recent literacy and numeracy comparative information in relation to the school's performance in the literacy and numeracy tests.

Regulation 5 amends the School Performance Information (Wales) Regulations 2011 so as to require the governing body of a maintained school to include in the information provided to Welsh Ministers and local authorities the results of the literacy and numeracy tests.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 437 (Cy.53)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013

*Gwnaed* *27 Chwefror 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *28 Chwefror 2013*

*Yn dod i rym yn unol ag adran 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 29, 408, 537, 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac yn adrannau 30(1) a (2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**) ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 29(3) gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 29(3) a (5) gan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 408 gan baragraff 30 o Atodlen 7 ac Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), paragraffau 57 a 106 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgilau 2000 (p.21), Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 12 a Rhan 7 o Atodlen 16 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 537 gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997, paragraffau 57 a 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 a chan O.S. 2010/1158. Amnewidiwyd adran 537A gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005, adran 103(1)(a). Diwygiwyd is-adrannau (3) a (4) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005, adran 103(1)(b).

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr adrannau yn Neddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adrannau yn Neddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 437 (W.53)

# EDUCATION, WALES

## The National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Regulations 2013

*Made* *27 February 2013*

*Laid before the National Assembly for Wales* *28 February 2013*

*Coming into force in accordance with section 1(1)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers in sections 29, 408, 537, 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**), and in sections 30(1) and (2) and 210 of the Education Act 2002(**2**) and now vested in them(**3**) and after consulting with those persons with whom consultation appeared to the Welsh

(**1**) 1996 c.56. Section 29(3) was amended by Schedule 30 and paragraph 67 of Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). Section 29(3) and (5) were amended by S.I. 2010/1158. Section 408 was amended by paragraph 30 of Schedule 7 and Schedule 8 to the Education Act 1997 (c.44), paragraphs 57 and 106 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998, paragraph 57 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c.21), Schedule 21 of the Education Act 2002, Schedule 12 and Part 7 of Schedule 16 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22) and by S.I. 2010/1158. Section 537 was amended by paragraph 37 of Schedule 7 to the Education Act 1997, paragraphs 57 and 152 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998, paragraph 60 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 and by S.I. 2010/1158. Section 537A was substituted by paragraph 153 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 and further amended by S.I. 2010/1158.

(**2**) 2002 c.32. Sub-sections (1) and (2) of section 30 were amended by the Education Act 2005, section 103(1)(a). Sub-sections (3) and (4) of section 30 were amended by the Education Act 2005, section 103(1)(b).

(**3**) The functions of the Secretary of State in the sections in the Education Act 1996 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006. The functions of the National Assembly for Wales in the sections in the Education Act 2002 were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

ddymunol i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996 yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013 ac maent yn dod i rym ar 1 Mai 2013 ac eithrio rheoliad 3(5) a ddaw i rym ar 1 Medi 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**

**2**.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ar ôl y diffiniad o "absenoldeb anawdurdodedig" mewnosoder—

"ystyr "adroddiad cymharol ar lythrennedd a rhifedd" ("*literacy and numeracy comparative report*") yw adroddiad a ddarperir i'r ysgol gan Weinidogion Cymru ar berfformiad ysgol yn yr asesiadau statudol sy'n cynnwys cymhariaeth o berfformiad yr ysgol honno mewn cysylltiad â'r profion hynny mewn perthynas ag ysgolion eraill;";

(b) ar ôl y diffiniad o "adroddiad llywodraethwyr" mewnosoder—

"ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013;".

(3) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 5 mewnosoder—

"5A Yr adroddiad cymharol diweddaraf ar lythrennedd a rhifedd.".

**Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011**

**3**.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, hepgorer paragraff (3)(a).

(3) Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2011/1939 (Cy.207).

(**2**) O.S. 2011/1943 (Cy.210).

Ministers to be desirable pursuant to section 408(5) of the Education Act 1996 make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is the National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Regulations 2013 and they come into force on 1 May 2013 except for regulation 3(5) which comes into force on 1 September 2013.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011**

**2**.—(1) The School Governors' Annual Reports (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2—

(a) after the definition of "language category" insert—

""literacy and numeracy comparative report" ("*adroddiad cymharol ar lythrennedd a rhifedd*") means a report provided to the school by the Welsh Ministers of a school's performance in the statutory assessments containing a comparison of that school's performance in respect of those tests in relation to other schools;";

(b) after the definition of "reporting school year" insert—

""statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means the assessment arrangements specified by the Welsh Ministers in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013;".

(3) In Schedule 2, after paragraph 5 insert—

"5A The most recent literacy and numeracy comparative report.".

**Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011**

**3**.—(1) The Head Teacher's Report to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2011(**2**) is amended as follows.

(2) In regulation 3, omit paragraph (3)(a).

(3) In regulation 4, after paragraph (3) insert—

(**1**) S.I. 2011/1939 (W.207).

(**2**) S.I. 2011/1943 (W.210).

"(4) Pan fo disgybl ym mlwyddyn olaf y cyfnod sylfaen rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth sydd ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen.".

(4) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

"**Rhan 4A**

**Asesu disgyblion yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol dau a thri mewn darllen a rhifedd**

6A (1) Canlyniadau unrhyw asesiad a gynhelir yn unol â'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013.

(5) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

"**Rhan 4B**

**Cynnydd disgyblion yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol dau a thri mewn darllen a rhifedd**

(1) Crynodeb byr o gynnydd y disgyblion yn unol â'r rhaglenni addysgol ychwanegol a'r rhaglenni astudio ychwanegol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013.".

**Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**

**4**.—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 —

(a) ar ôl y diffiniad o "absenoldeb anawdurdodedig" mewnosoder—

"ystyr "adroddiad cymharol ar lythrennedd a rhifedd" ("*literacy and numeracy comparative report*") yw adroddiad a ddarperir i'r ysgol gan Weinidogion Cymru ar berfformiad ysgol yn yr asesiadau statudol sy'n cynnwys cymhariaeth o berfformiad yr ysgol honno mewn cysylltiad â'r profion hynny mewn perthynas ag ysgolion eraill;";

(b) ar ôl y diffiniad o "arholiadau cyhoeddus" mewnosoder—

"ystyr "asesiadau statudol" ("*statutory assessments*") yw'r trefniadau asesu a bennir gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013;".

(3) Yn rheoliad 5(1) yn lle "cyn 1 Hydref" rhodder "heb fod yn hwyrach na 1 Hydref".

(**1**) O.S. 2011/1944 (Cy.211).

"(4) Where a pupil is in the final year of the foundation phase the report must contain the information in paragraph 1 of Part 1 of the Schedule.".

(4) In the Schedule, after paragraph 6 insert—

"**Part 4A**

**Assessment of pupils in the foundation phase and the second and third key stages in reading and numeracy**

6A (1) The results of any assessment carried out in accordance with the assessment arrangements specified by the Welsh Ministers in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013.".

(5) In the Schedule, after paragraph 6 insert—

"**Part 4B**

**Progress of pupils in the foundation phase and the second and third key stages in reading and numeracy**

(1) A brief summary of the pupils progress against the additional educational programmes and additional programmes of study given legal effect to by the National Curriculum (Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2013.".

**School Information (Wales) Regulations 2011**

**4**.—(1) The School Information (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2—

(a) after the definition of "language category" insert—

""literacy and numeracy comparative report" ("*adroddiad cymharol ar lythrennedd a rhifedd*") means a report provided to the school by the Welsh Ministers of a school's performance in the statutory assessments containing a comparison of that school's performance in respect of those tests in relation to other schools;";

(b) after the definition of "school prospectus" insert—

""statutory assessments" ("*asesiadau statudol*") means the assessment arrangements specified by the Welsh Ministers in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013;".

(3) In regulation 5(1) for "before 1 October" substitute "no later than 1 October".

(**1**) S.I. 2011/1944 (W.211).

(4) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 30 mewnosoder—

"(31) Yr adroddiad cymharol diweddaraf ar lythrennedd a rhifedd".

(4) In Schedule 3, after paragraph 30 insert—

"(31) The most recent literacy and numeracy comparative report".

**Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011**

**5**.—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "asesiadau statudol" yn lle is-baragraff (i) rhodder—

"(i) yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013; a;" .

**School Performance Information (Wales) Regulations 2011**

**5**.—(1) The School Performance Information (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1), in the definition of "statutory assessments" for subparagraph (i) substitute—

"(i) in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013; and;".

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

27 Chwefror 2013

27 February 2013

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2011/1963 (Cy.217).

(**1**) S.I. 2011/1963 (W.217).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 437 (Cy.53)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 437 (W.53)

## EDUCATION, WALES

The National Curriculum (Amendments relating to Educational Programmes for the Foundation Phase and Programmes of Study for the Second and Third Key Stages) (Wales) Regulations 2013

£5.75

W1525/03/13 ON